| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 31 Gorffennaf 2012 |
| **TEITL YR EITEM** | Monitro Cynnydd y Strategaeth Ad-drefnu Addysg Cynradd |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Siân Gwenllian |
| | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc yn croesawu'r diddordeb yn y rhaglen trawsnewid yma. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi amlygu'r cyswllt pwysig rhwng y broses ad-drefnu ac ansawdd addysg. Wth gwrs y cyswllt hynny sydd yn gyrru'r angen i drawsnewid y strwythur addysgol i sicrhau fod cyfundrefn gynaliadwy i gynnal a gwella ansawdd addysg yn y Sir.

1.2 Fel sydd wedi ei amlygu yma yng Ngwynedd, mae'n cymeryd cyfnod o flynyddoedd i wireddu'r cynlluniau trawsnewid hyn. Golygai hyn felly ei bod yn gynamserol mesur gwir effaith cynlluniau ad-drefnu yn llawn nes fod y cynlluniau newydd yn weithredol. Wedi dweud hynny, mae rhai cynlluniau yn weithredol ac eraill wrthi yn cael eu datblygu.

## 2. Cefndir

2.1 Datblygwyd Strategaeth Ad-drefnu – '*Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' gan Weithgor trawsbleidiol. Yn Ebrill 2009, cefnogwyd y strategaeth yn ddiwrthwynebiad gan y Cyngor Llawn. Mae'r Strategaeth wedi bod ar waith ers hynny.

2.2 **Yn gryno – dyma ddeilliannau y cynlluniau ad-drefnu hyd yma:**

- Mae trafodaethau trefniadaeth ysgolion wedi ei gynnal yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn ac Y Gader sydd yn cwmpasu **21 o ysgolion** hyd yma.

- Mae'r Cygor **wedi sicrhau y bydd addysg wledig yn cael ei gynnal** yn ardaloedd Tywyn, Dolgellau a Bala mewn ysgolion hyfyw a chynaliadwy i'r dyfodol.

- Bydd **ysgolion gwledig a threfol** yn yr ardaloedd hyn **yn cael eu huwchraddio**

- Mae cynlluniau arloesol ar droed sydd **yn torri tir newydd** (datblygir sefydliadau addysg gydol oes yn y Bala a Dolgellau, a sefydlir Ysgolion Ardal Gwledig – ac un o'r rheini ar ddau safle).

- Buddsoddiadau a Ddenwyd:
  Bydd y cynlluniau yn arwain at **fuddsoddiad o £22miliwn i wella a datblygu ysgolion**. Bydd pob ymdrech i gadw'r bûdd yn lleol drwy brosesau caffael er mwyn rhoi cyfle i gontractwyr lleol elwa o'r buddsoddiad.

- Llefydd Gweigion:
  **Lleihau hyd at 900 o lefydd gweigion** o ganlyniad i'r cynlluniau all leihau canran llefydd gweigion y Sir i 23.9%.

- Safleoedd Ysgolion:
  Mae'r cynlluniau yn mynd i arwain at **9 yn llai o safleoedd ysgolion**. Golygai hyn y bydd y Cyngor yn medru trawsgyfeirio arian cynnal a chadw 9 o safleoedd, a'i wario ar wella gweddill y ddarpariaeth addysg yn y Sir.

- Arbedion Gyflawnwyd:
  Gall y cynlluniau penderfynwyd arnynt eisoes **arwain at tua hanner miliwn (£500k) o arbedion refeniw blynyddol**.
  Bydd gwerth oddeutu £300k o arian gaiff ei wario'n aneffeithlon ar leoedd gweigion ar hyn o bryd, cael ei ddefnyddio mewn modd mwy effeithlon o fewn y gyllideb addysg.

**3. *Rhowch enghreifftiau lle mae'r Strategaeth wedi creu gwelliant yn y ddarpariaeth addysgol i blant CA1 a CA2.***

3.0.1. Fel nodwyd uchod – mae yn gynamserol mesur llwyddiant cynlluniau llawn o'r strategaeth ar hyn o bryd, ond mae rhai sefyllfaoedd ble mae disgyblion wedi symud i ysgolion eraill a ble mae ambell ysgol wedi eu rhoi mewn trefniant ffedereiddio. Ond, o edrych ar meini prawf yn y strategaeth gellid asesu'r cynlluniau hyd yma.

3.1 Maint Dosbarthiadau

3.1.1. Yn ôl y strategaeth ein disgwyliadau yw y bydd dosbarthiadau o'r maint addas yn ysgolion cynradd Gwynedd fel bod y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl yn cael eu cynnig i blant y Sir.

3.1.2. Bydd cynlluniau arfaethedig yn arwain at sefyllfa ble bydd maint dosbarthiadau yn cael eu cysoni, yn fwy penodol ar gyfer sefyllfaoedd ble roedd dosbarthiadau bychan iawn. Roedd dosbarthiadau bychan yn Ysgolion Abergynolwyn a gweddill Ysgolion Bro Dysynni (Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril) Croesor, Rhydyclafdy a Llawrybetws. Mae dosbarthiadau bychan hefyd yn Ysgolion Y Parc, Machreth a Ieuan Gwynedd.

3.1.3. Yn achos disgyblion Ysgolion Abergynolwyn, Croesor, Rhydyclafdy a Llawrybetws, mae'r disgyblion oedd yn yr ysgolion hyn – bellach mewn ysgolion eraill – ble maent mewn dosbarthiadau o faint mwy. Mae hyn yn golygu fod cyfle i ddisgyblion fod mewn grwpiau â chyfoedion o'r ru'n oed sydd yn elwa eu profiadau addysgol a chymdeithasol. Golygai hyn, fel y nodwyd mewn gwaith ymchwil diweddar[1] fod yr athrawon yn dysgu llai o amrediad oedran ac felly yn medru canolbwyntio ar gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer ystod rhesymol o oedran.

3.2 Poblogaeth a Niferoedd Disgyblion

3.2.1. Mae niferoedd disgyblion mewn rhai dalgylchoedd ysgolion wedi lleihau ar raddfa fwy nac mewn ardaloedd eraill. Mae oddeutu 28% llai ddisgyblion cynradd ym Meirionnydd nac yn 1975. Mae'r lleihad yma yn golygu fod llawer iawn o lefydd gweigion yn rhai o'n ysgolion. Yn ôl Estyn[2]:

*"Pan fydd lefel uwch na'r angen o leoedd ysgol, mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon a gellid eu defnyddio'n well i wella ansawdd yr addysg ar gyfer pob dysgwr."*

[1] Classes, Groups and Transitions: structures for teaching and learning / Peter Blatchford, Susan Hallam, Judith Ireson and Peter Kutnick, with Andrea Creech Institute of Education and King's College University of London / Cyhoeddwyd gan Prifysgol Caergrawnt 2008

[2] Adroddiad Estyn Mai 2012 - Sut mae lleoedd dros ben yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael i wario ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion?

3.2.2. O ganlyniad i'r cynlluniau arfaethedig – gall oddeutu 350 o lefydd gweigion yn ysgolion dalgylch Tywyn gael eu dileu, **a lleihad o hyd at 900 o lefydd gweigion ar draws y Sir** yn sgil cynlluniau eraill.

3.2.3. Yn ogystal, o ganlyniad i'r cynlluniau yn nalgylchoedd Tywyn, Y Gader, a'r Berwyn bydd sefydliadau addysgol fwy cadarn er mwyn sicrhau darpariaeth addysg gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a threfol o'r dalgylchoedd hynny..

3.3 Arweinyddiaeth

3.3.1. Mae'r Strategaeth yn nodi dyhead i sicrhau'r amgylchedd briodol i Benaethiaid arwain eu hysgolion o ran yr awyrgylch ffisegol, a capasiti i arwain a rheoli sefydliad addysgol – ond hefyd, cyfeirir at broblemau recriwtio Penaethiaid. Nodir mewn papur ddatblygwyd gan Ffederasiwn Penaethiaid Gwynedd; "*Y mae rôl Y Pennaeth mewn ysgol a'r arweiniad a gynigir yn hanfodol...*". Ychwanegir...

"*Ar hyn o bryd ni chredir bod gwaith Pennaeth o **arwain ysgol** yn cael y sylw dyladwy a'r flaenoriaeth haeddiannol. Mae cyflawni gwaith datblygol yn gynyddol anodd".*

Amlygwyd pwysigrwydd rôl arweinyddiaeth i lwyddiant ysgol mewn astudiaeth diweddar[3] a daw'r ymchwil i gasgliad mai;

"*The head is the main source of leadership in a school and plays the lead role in promoting change for improvement*".

3.3.2. Ond, yr hyn a gesglir o bapur Ffederasiwn Penaethiaid Gwynedd yw fod angen gweithio tuag at greu'r amgylchiadau priodol fel bod Penaethiaid ysgolion y Sir yn medru arwain yn effeithiol ac effeithlon i'r dyfodol.

3.3.3. O ganlyniad i greu sefydliadau cynaliadwy yn ardaloedd Tywyn, Bala a Dolgellau – bydd hyn yn fodd o sicrhau fod yr ysgolion yn cael eu harwain gan yr unigolion gorau, ond hefyd eu bod yn arwain sefydliadau o faint addas sydd yn sicrhau fod capasiti i arwain a rheoli.

3.4 Amgylchedd Dysgu

3.4.1. O ganlyniad i'r cynlluniau drafodwyd hyd yma bydd **dros £20miliwn yn cael ei fuddsoddi** yn ein hysgolion. Bydd y buddsoddiadau hyn yn sicrhau'r amgylchedd dysgu ac addysgu gorau posib ar gyfer y disgyblion a staff yr ysgolion fydd yn elwa o'r buddsoddiad. Yn ôl ymchwil gan Estyn[4] – mae "…gwelliannau yn ansawdd adeiladau effaith fuddiol iawn ar ansawdd yr addysgu a moral staff sy'n cael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion". Yn ogystal, mae ysgolion mwy, sydd wedi eu haddasu ai huwchraddio ac sydd wedi eu had-drefnu yn debygol o fod yn fwy deniadol wrth benodi staff.

[3] '10 strong claims about successful school leadership' / National College for Leadership of Schools and Children's Services / 2010

[4] Adroddiad Estyn 2007: Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol

3.4.2. Bydd ysgol fodern bwrpasol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn cael ei hadeiladu ym Mro Dysynni gyda gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud ar safleoedd ac adeiladau Ysgolion Brithdir, O.M. Edwards, ynghyd a gwelliannau yn Ysgolion Penybryn, Tywyn, Dyffryn Dulas a Pennal, Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn a safle Dinas Mawddwy. Yn ychwanegol i hyn, bydd cynllun arloesol i ddatblygu Campws Gydol Oes yn y Bala.

3.4.3. Mae'r cynlluniau hyn yn fuddsoddiadau cyfalaf sylweddol yn y sefydliadau addysgol, a bydd modd gweld y cynlluniau yn cael eu datblygu yn y blynyddoedd nesaf. Er enghraifft, bydd gwaith llawr daear ar ddatblygu yr Ysgol Ardal newydd ym Mro Dysynni o fewn yr wythnosau nesaf.

3.5 <u>Adnoddau Ariannol</u>

3.5.1. Nodir yn y Strategaeth ddisgwyliad bod Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg gynradd y Sir.

3.5.2. Yn seiliedig ar y cynlluniau arfaethedig, **bydd hyd at £500k o arbedion refeniw blynyddol**.

3.5.3. Yn seiliedig ar ddata gan Estyn mae bob lle gwag mewn ysgol gynradd ar gyfartaledd yn costio tua £260 a pob lle gwag yn yr ysgolion uwchradd yn costio £510. Gall y cynlluniau gael gwared hyd at 900 o lefydd gwag fydd yn golygu gall oddeutu £300,000 y flwyddyn gael ei wario yn fwy effeithlon o fewn y gyfundrefn addysg.

3.5.4. Yn ogystal, bydd y cynlluniau hyn yn rhesymoli 9 safle. Golygai hyn, ymhen amser na fydd angen cynnal yr holl safleoedd hyn – sydd yn golygu y gall cyfran o'r arian yma gael ei gyfeirio yn uniongyrchol ar addysg yn y dyfodol.

4. ***Rhowch unrhyw enghreifftiau lle na chafwyd llwyddiant i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon. Beth oedd y rhwystrau a sut aed ati i geisio eu goresgyn?***

4.1 Wrth gwrs, doedd Cyngor Gwynedd heb ymgymryd â'r dasg o ad-drefnu ysgolion yn y Sir ers cyfnod o dros 30 o flynyddoedd cyn gweithredu'r strategaeth yma. Yn amlwg, wrth weithredu proses o'r fath, mae gwersi yn mynd i gael eu dysgu – a'r dasg o gyflawni, neu 'ddal i fyny' yn heriol.

4.2 Mae posib fod y broses wedi ei gor-gymhlethu ar y cychwyn, a bod gormod o amser ac egni wedi bod ar drafod modelau na fyddai mewn gwirionedd fyth wedi gweld golau dydd. Ond, mae yn gydbwysedd anodd i'w gael rhwng sicrhau fod lle i drafod a pheidio a throi opsiynau afrealistig. Felly, o ganlyniad i adborth o'r dalgylchoedd ble trafodwyd eisoes, a sylwadau'r Ffederasiwn Penaethiaid, mae ymgais i gynnal trafodaethau fwy effeithlon wrth weithredu'r strategaeth – a gwelwyd hynny ar waith gyda thrafodaethau yn nwyrain Dolgellau.

4.3 Wrth ad-drefnu, yn aml iawn rhaid dilyn canllawiau statudol, yn enwedig felly os oes newid o bwys i sefyllfa ysgolion. Mae'r prosesau statudol hyn yn cymeryd amser. Os yw sefyllfa yn eithaf syml – mae'r camau i gyd yn cymeryd o leiaf blwyddyn. O ganlyniad i'r rhwystredigaeth hyn, gwnaed gwaith lobio gan Aelodau, Swyddogion ac awdurdodau eraill gyda'r Llywodraeth i newid y drefn. Bellach maent wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddiwygio'r drefn, ac yn y broses o basio statud fydd yn ymgeisio i symleiddio'r broses. Rhagwelir y bydd y statud newydd ar waith ar ôl Medi 2013.

4.4 Wrth gwrs, os oes gwaith adeiladu ynghlwm wrth gynlluniau – rhaid mynd trwy brosesau cynllunio. Gall rhai cynlluniau gael eu llesteirio wrth gymhlethdodau yn y broses honno.

4.5 Un wers a ddysgwyd ar ôl trafodaeth dalgylch Tywyn oedd yr angen i sicrhau fod safle yn cael ei benderfynu os oedd yr angen am hynny fel rhan o gynllun arfaethedig. Gwelwyd bod penderfynu ar safle ynghynt yn golygu fod yr ymgynghoriad statudol yn llawer fwy cadarn, ac yn rhoi darlun gwell i bobl wrth ymgynghori.

4.6 Mae materion pellach fydd angen eu hystyried gan yr Aelod Cabinet yn fuan – sef yr angen i weithrediad y Strategaeth i fod yn ddigon hyblyg ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng. Bydd rhaid hefyd ystyried ymhellach bwysigrwydd cynnwys y sector uwchradd wrth ymwneud ag ad-drefnu cynradd.

**5. *Dangoswch sut ddaru chi adnabod y deilliannau yn y lle cyntaf? Ydych chi'n gyffyrddus mai rhain yw'r deilliannau cywir i bobl Gwynedd?***

5.1 Sefydlwyd Gweithgor Gwella gan y Cyngor ym Mehefin 2008 i ystyried trefniadaeth ysgolion y Sir i'r dyfodol. Gofynnwyd i'r Gweithgor ystyried:

- Trefniant newydd er mwyn sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;
- Priodoldeb o gau ysgolion, yn unol â meini prawf clir a chadarn;
- Cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell dalgylch;
- Ymdrin ag unrhyw fater arall yn nhyb y Gweithgor sy'n berthnasol.

5.2 Sefydlwyd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd Gwynedd gan y Cyngor llawn ym Mehefin 2008 gan gyfarfod 14 o weithiau yn ystod y misoedd dilynol.

5.3 Ffurfiwyd aelodaeth y Gweithgor gan y aelodaeth trawsbleidiol oedd yn cynnwys - y Cynghorwyr Dyfrig Siencyn Seimon Glyn, Siân Gwenllïan, Brian Jones, June Marshall a Dewi Owen. Roedd yr Arweinydd Portffolio Ysgolion ar y pryd, y Cynghorydd Liz Saville Roberts, yn gweithredu fel sylwebydd.

5.4 Derbyniodd y Gweithgor gyflwyniadau gan nifer o gyrff ac unigolion, gan gynnwys:

- ESTYN a Swyddfa Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolwyr ysgolion cynradd bach, canolig a mawr Gwynedd
- Cynghrair Ysgolion a Chefnogwyr
- Cymdeithas yr Iaith
- Swyddogion Cyngor Gwynedd
- Cymdeithas Cenedlaethol Ysgolion Bychain (NASS)

5.5 Derbyniodd y Gweithgor ystod eang o dystiolaeth ystadegol ar sefyllfa ysgolion yng Ngwynedd. Mae'r wybodaeth ffeithiol wedi'i chymeradwyo fel dadansoddiad teg, tryloyw, cywir a diduedd gan bob un o aelodau'r Gweithgor.

5.6 Cyflwynwyd adroddiad gan y Gweithgor i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn Nhachwedd 2008 yn amlinellu ei gyfrifoldebau ac yn cynnig syniadau cychwynnol.

5.7 Cyhoeddodd y Gweithgor ganfyddiadau cychwynnol i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Gwynedd yn Nhachwedd 2008:

- Mae'n rhaid cael newid mewn rhai ardaloedd am nifer o resymau;
- Fe all graddfa, natur ac amserlen y newid amrywio o ardal i ardal;
- Mae angen cynllunio'r newid fesul ardal law-yn-llaw â chynrychiolwyr lleol;
- Mewn rhai ardaloedd bydd posib trafod nifer o opsiynau ac mae modd ystyried syniadau am newid bydd yn deillio o'r drafodaeth leol;
- Mae angen cynllunio'r newid mewn trefn gan flaenoriaethu'r ardaloedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir.

5.8 Cyflwynwyd Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Orau i Blant Gwynedd i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2009.

5.9 Cymeradwywyd yr adroddiad gyda chais am rai addasiadau, yn bennaf:

- Nodi'r bwriad i ymgynghori gyda phlant a staff ysgolion;
- Amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Panel Adolygu Dalgylchol;
- Clymu'r broses yn agosach at y broses statudol.

5.10 Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Orau i Blant Gwynedd i Fwrdd y Cyngor ar 10 Mawrth 2009.

5.11 Cymeradwywyd yr adroddiad gyda chais am rai addasiadau, yn bennaf:

- Cysoni statws y Gymraeg yn y fframwaith adolygu fel bod y Cyngor yn egluro'i weledigaeth a'i ymrwymiad dros yr iaith;
- Egluro ac ymhelaethu'r broses o adolygu dalgylch gan gynnwys cynrychiolaeth (Pennaeth ac aelod o gorff llywodraethol) o bob ysgol yn y dalgylch ar y Paneli Adolygu Dalgylch os dymunir hynny yn lleol;
- Addasu'r ddogfen i nodi Penaethiaid Ysgol Uwchradd y Dalgylch;
- Cadarnhau bod unrhyw arbedion a wneir o gau neu newid yn dod i'r gyfundrefn addysg;
- Anelu i sicrhau adeiladau o ansawdd o fewn y Sir drwy gynllun bwriadus

5.12 Cyflwynwyd a cymeradwywyd y strategaeth gan y Cyngor Llawn yn Ebrill 2009 yn ddiwrthwynebiad a chytunwyd ar y canlynol;

- Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;
- Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;
- Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod yn rhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;
- Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

5.13 Yn ystod Haf 2010 – bu i Ffederasiwn Penaethiaid Gwynedd ddatblygu papur cryno ar y strategaeth (Atodiad 1). Daeth i'r amlwg o ddatblygiad y papur hwnnw fod Penaethiaid y Sir yn cadarnhau fod y deilliannau anelir tuag at eu gwireddu yn cael eu rhannu ganddynt hwythau yn ogystal.

**6. *Rhowch dystiolaeth glir o sut mae'r cynnydd ar brif dargedau'r Strategaeth wedi gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc Gwynedd.***

6.0 Dyma rhai o'r prif dargedau nodwyd yn y strategaeth a'r cynlluniau arfaethedig fydd yn ymgyrraedd tuag atynt:

6.1 Cynnig y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i blant y Sir drwy sicrhau dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion;

6.1.1. Mae sefyllfaoedd yn nalgylch Tywyn, y Berwyn ac Y Gader ble bydd disgyblion oedd/sydd mewn ysgolion bychan eu maint – o ganlyniad i'r cynlluniau, yn cael eu symud mewn i ddosbarthiadau mwy. Bydd hyn yn golygu eu bod yn cael eu dysgu mewn grwpiau â llai o ystod oedran fydd yn cyfoethogi eu haddysg a'u ymwneud cymdeithasol â disgyblion eraill.

6.1.2. Bydd nifer o'r cynlluniau hefyd yn arwain at wella sefyllfa i Benaethiaid arwain a rheoli eu ysgolion. Wrth greu ysgolion fwy cynaliadwy bydd modd rhyddhau Penaethiaid o amser dysgu fel bod amser i reoli ac arwain eu ysgolion. Mae cynlluniau ffedereiddio wedi eu gwireddu hefyd – fydd yn ymgeisio i arwain at yr un gwelliant.

6.1.3. Yn ogystal, o greu sefydliadau addysgol fwy cadarn – bydd hyn yn creu llwybr gyrfa i unigolion, ac yn ymgiprys â phroblemau recriwtio – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

6.2 Ymateb i anghenion a chyfleon yn y gyfundrefn addysg gynradd bresennol drwy fod yn rhagweithiol a chreadigol, gan weithio ar y cyd gydag eraill tuag at gynllun hir dymor fydd yn gynaliadwy ac ymarferol;

6.2.1. Mae'r trafodaethau hyn wedi cwmpasu 21 o ysgolion hyd yma yn nalgylchoedd Tywyn, Y Berwyn ac Y Gader.

6.2.2. Fel rhan o'r cynlluniau yma mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried cynigion arloesol. Mae'r Cyngor wedi cynllunio i sefydlu Campws Gydol Oes yn Y Bala, ac yn ystyried sefydlu Cymuned Ddysgu Gydol Oes Aml-Safle yn Nolgellau.

6.2.3. Wrth gwrs, mae'r cynlluniau hefyd yn sicrhau darpariaeth addysg mewn ardaloedd gwledig yn y dalgylchoedd drafodwyd eisoes – ond bydd rhain yn ddarpariaethau addysgol cynaliadwy a fwy cadarn nac yr oeddent heb weithrediad y strategaeth. Mae cynlluniau yn eu lle i sefydlu Ysgol Ardal ym Mro Dysynni a sefydlu Ysgol Ardal Aml-Safle ym Mrithdir a Dinas Mawddwy – syniadau a chynlluniau hollol newydd i Wynedd.

6.2.4. Mae Cyngor Gwynedd hefyd ar flaen y gâd gyda datblygu modelau o ffedereiddio. Mae 2 o 6 cynllun peilot ffedereiddio'r Llywodraeth wedi eu cynnal yng Ngwynedd – (1) Pennal a Dyffryn Dulas, (2) Glanadda a Coed Mawr.

6.3 Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael – yn ddynol, technolegol, ariannol – fel bod plant yn cael y budd mwyaf o wariant y Sir ar addysg;

6.3.1. Mae niferoedd disgyblion wedi lleihau ar draws y Sir dros y degawdau diweddar, gyda rhai ardaloedd wedi gweld mwy o ostyngiad nac eraill. Yn wir – roedd tystiolaeth o hyn yn greiddiol wrth ddatblygu'r strategaeth i gychwyn. Canlyniad lleihad mewn niferoedd yw fod llawer o lefydd gweigion yn yr ysgolion – a bod adnoddau prin yn cael eu defnyddio yn aneffeithlon ar gynnal systemau a phrosesau a chyfundrefnau yn hytrach nac addysg y disgyblion.

6.3.2. O ganlyniad i'r cynlluniau arfaethedig – gall hyd at 900 o lefydd gweigion gael eu dileu o ysgolion y Sir. Y gobaith yw bydd yr arian a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio yn fwy effeithlon i'r dyfodol, yn fwy uniongyrchol ar addysg ac ar wella ansawdd addysg.

6.3.3. Yn ogystal, bydd y cynlluniau hefyd yn symud tuag at gysoni fod yr ysgolion o'r maint cywir yn y llefydd cywir h.y. cysoni lleoliad ysgolion gyda'r galw am lefydd yn lleol.

6.4 Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir drwy wella cyfleusterau ac adeiladau;

6.4.1. Mae'r cynlluniau penderfynwyd arnynt eisoes yn mynd i arwain at fuddsoddiad (o dros £20miliwn) yn amgylchedd dysgu plant ac athrawon. Mae'r Cyngor wedi denu buddsoddiad gan y Llywodraeth i wireddu cynlluniau ad-drefnu ysgolion yn y Sir. Mae cynlluniau Tywyn wedi ei ariannu ar sail cyfraniad 70% gan Llywodraeth Cymru a 30% gan Cyngor Gwynedd. Mae gweddill y buddsoddiad ar sail cyfraniadau 50% gan Lywodraeth Cymru a 50% gan Gyngor Gwynedd.

6.4.2. Mae'r gwelliannau hyn amrywio o ysgol ardal newydd sbon ym Mro Dysynni – i ddatblygiadau sylweddol yn safle Brithdir a safle y Berwyn, Bala – gyda gwelliannau nodedig yn Ysgolion OM Edwards; Penybryn, Tywyn a nifer o rhai eraill.

6.4.3. Mae manylion y cynlluniau yn amrywio – ond maent yn gwella cyflwr dosbarthiadau dysgu, yn darparu mannau paratoi gwersi ar gyfer athrawon, yn gwella'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth ac yn gwella cyfleusterau dysgu a chwarae y tu allan – ynghyd a gwella diogelwch mannau parcio. Yn ôl ymchwil wnaethpwyd gan Estyn[5] ar ysgolion sydd ag adeiladau newydd neu adeiladau wedi'u hadnewyddu; "...mae cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion wedi gwella. Mewn rhai achosion, bu gwelliant sylweddol mewn cyrhaeddiad".

6.5 Anelu i hyrwyddo a chryfhau'r Iaith Gymraeg - fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol - wrth roi cynigion newydd yn eu lle ar gyfer addysg gynradd y Sir;

6.5.1. Mae adroddiadau ardrawiadau ieithyddol wedi eu cynnal ar bob cynnig drafodwyd hyd yma. Mae'r asesiadau hyn wedi pwyso a mesur sefyllfa'r iaith Gymraeg ymhob sefyllfa – ac o ganlyniad i'r cynlluniau bydd darparu addysg drwy'r iaith unai yn yr un sefyllfa, neu mewn sefyllfa cryfach.

[5] Adroddiad Estyn 2007: Arfarniad o berfformiad ysgolion cyn ac ar ôl symud i mewn i adeiladau newydd neu eiddo a adnewyddwyd yn sylweddol.

6.6 Datblygu ein hysgolion i fod yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.

6.6.1. Fel rhan o'r gwelliannau i adeiladau mae darpariaethau ar gyfer y gymuned yn cael eu datblygu. Bydd y darpariaethau hyn yn ddefnyddiol ar gyfer grwpiau cymunedol, hyfforddiant a cyrsiau oedolion/cymuned.

6.6.2. Ond yn ychwanegol i'r darpariaeth ffisegol – bydd rhai o'r ysgolion yn darparu addysg ar gyfer cymunedau ehangach nac a wneir ar hyn o bryd. Gwnaed asesiad ardrawiad cymunedol fel rhan o'r broses o ddatblygu cynigion – a nodwyd yno yn glir y bydd angen sicrhau fod yn rhaid i ysgolion integreiddio cymunedau ehangach ble bo ysgolion yn uno. Mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran yr elfen cymunedol – ac mae Swyddog Adfywio yn gweithio eisoes gyda rhai o'r cymunedau hyn i drafod ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion sydd yn cau, yn ogystal â bod ar gael i drafod rôl unrhyw ysgol newydd o fewn cymuned ehangach.

## 7. Nodwch pa wersi a ddysgwyd, ac yn gryno beth yw'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol gan roi sylw penodol i:

### 7.1 *Natur a goblygiadau cyllid y pen cymharol isel i ddisgyblion Gwynedd*

7.1.1. Yn 2012-13 – mae gwariant y pen yn ysgolion Gwynedd (cyllideb ddatganoledig) fel a ganlyn o gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru:

*Cynradd:*

Cyfartaledd Gwynedd: £4,517
Cyfartaledd Cymru: £4,114

*Uwchradd:*

Cyfartaledd Gwynedd: £4,800
Cyfartaledd Cymru: £4,589

7.1.2. Mae'r wybodaeth diweddaraf[6] yn cynnwys cymhariaeth o'r **gyllideb Addysg perthnasol i Ysgolion – gros** fesul disgybl, ar draws pob sector. Dengys hyn lefel gwariant gros o £5,901 fesul disgybl yng Ngwynedd, sef y trydydd uchaf drwy Gymru a bron 7% yn uwch na chyfartaledd Cymru sef £5,520. Dangosir y ffigyrau manwl ar gyfer Gwynedd a chynghorau gwledig eraill Cymru isod.

**Tabl 1**
**Cyllideb Addysg Perthnasol i Ysgolion – Gros**

| | £ Y Disgybl | Safle (drwy Gymru) |
|---|---|---|
| Cardigan | 6,354 | 1 |
| Conwy | 5,907 | 2 |
| Gwynedd | 5,901 | 3 |
| Powys | 5,858 | 5 |
| Ynys Môn | 5,854 | 6 |
| Sir Benfro | 5,796 | 7 |
| Sir Fynwy | 5,662 | 8 |
| Sir Ddinbych | 5,620 | 9 |
| Sir Gaerfyrddin | 5,543 | 11 |
| **Cyfartaledd Cymru** | **5,520** | |

[6] Bwletin Ystadegol – Ystadegau ar gyfer Cymru 27 Mehefin 2012

7.1.3. Felly, o ystyried yr wybodaeth uchod – mae'r gwariant fesul pen yn uwch yng Ngwynedd na'r cyfartaledd yng Nghymru. Wedi dweud hynny – mae'r gwariant y pen yn amrywio o fewn ysgolion Gwynedd.

7.1.4. Mae amrywiaeth sylweddol yn y gwariant fesul disgybl rhwng ysgolion y Sir, gyda'r ysgolion cynradd lleiaf yn gwario dros £7,000 y pen, a'r ysgolion cynradd mwyaf yn gwario oddeutu £2,700 y pen (mae'r ysgol uwchradd fwyaf yn gwario £3,942 y pen a'r ysgol uwchradd leiaf yn gwario £5,098).

7.1.5. Yn ogystal, mae nifer helaeth o ysgolion y Sir wedi'u cynllunio ar gyfer llawer mwy o ddisgyblion nag sydd wedi mynychu'r ysgol ers blynyddoedd. Bellach, mae'n rhaid bod yn fyw i effaith ac oblygiadau gwariant sylweddol ar ysgolion sydd â chanran helaeth o lefydd gweigion - yn enwedig effaith ac oblygiadau hyn ar y gyllideb ac ar ysgolion eraill.

7.1.6. Mae 31 o'n hysgolion cynradd sydd â 43 neu lai o ddisgyblion yn derbyn rhyngddynt £595,000 (2012/13) o gyllid ychwanegol trwy'r "rhwyd-diogelu" er mwyn eu galluogi i gyflogi Pennaeth ac athro/athrawes. Er bod amgylchiadau'r ysgolion hyn yn amrywio cryn dipyn ni ellir peidio â'u hystyried wrth fanylu ar y defnydd o adnoddau.

7.1.7. Nodwyd eisoes fod canran sylweddol o'r gyllideb addysg ar hyn o bryd yn mynd ar gynnal isadeiledd costus iawn, yn y sector cynradd ac uwchradd, ac nid yw hyn yn gynaliadwy i'r dyfodol. ***Mae gwariant sylweddol ar ysgolion sydd â chanran helaeth o lefydd gweigion***. Gan ystyried fod dros 6,000 neu 28% o lefydd gweigion yn ysgolion Gwynedd – y ganran uchaf yng Nghymru, mae hyn yn golygu fod oddeutu £2.5miliwn yn cael ei wario yn flynyddol ar gynnal cyfundrefn (sydd yn ddyblygiadau gweinyddol a rheolaethol, a chostau cynnal adeiladau a systemau ayb), yn hytrach nac yn uniongyrchol ar addysg.

7.1.8. Bydd y cynlluniau benderfynwyd arnynt eisoes yn cyfrannu tuag at gysoni'r amrywiadau hyn yng ngwariant y pen. Ond bydd angen ystyried ymhellach dulliau o gysoni'r ffigwr ymhellach yn y sector cynradd – ynghyd a dechrau ar broses o adolygu'r sefyllfa uwchradd.

7.1.9. Un cwestiwn arall sy'n codi'n aml yn y cyswllt yma yw'r gwahaniaeth lefelau cyllido addysg rhwng Cymru a Lloegr. Cyhoeddwyd y set ddiwethaf o ddata am hyn yn Ionawr 2011, oedd yn dangos bod gwariant addysg £605 yn uwch fesul disgybl yn Lloegr, ar sail gwir wariant 2009/10.

7.1.10. Nid oes amheuaeth bod gwariant Lloegr yn gyffredinol uwch fesul disgybl fe ellid cwestiynu pa mor ystyrlon yw'r holl gymhariaeth mewn sefyllfa lle mae dosbarthiad poblogaeth y ddwy wlad mor wahanol i'w gilydd a lle ymddengys bod yna ffactorau neilltuol yn ninasoedd Lloegr sy'n gofyn am lefelau gwario sylweddol uwch.

### 7.2 *Canlyniad a goblygiadau arolwg adeiladau ysgolion Gwynedd*

7.2.1. Mae darpariaeth ar gyfer gwneud gwelliannau i gyflwr adeiladau ysgolion y Sir o fewn Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor fel y cytunwyd yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn - Mawrth y 1af 2012. Wrth gwrs, cyn Nadolig 2011 – cyhoeddwyd fod y Cyngor wedi llwyddo i fynd drwy gam gyntaf y broses o ddenu buddsoddiad gwerth mwy na £36miliwn o Raglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru. Yn sgil hynny diwygiwyd y Cynllun Rheolau Asedau gan sicrhau fod y Cyngor yn medru darparu'r adnoddau cyfatebol priodol yn union ag amodau'r rhaglen. Mae gan y gwasanaeth eiddo rhaglen dreigl sydd yn ymateb i materion cynnal a chadw ysgolion.

7.2.2. Felly, o ran gwella stâd adeiladau ysgolion y Sir – bydd yn rhaid ystyried ymhellach maint yr ystâd ac hefyd rhaid ystyried y defnydd o'r adeiladau hyn fel asedau. Nodwyd eisoes fod gan Wynedd y ganran uchaf o lefydd gweigion yng Nghymru – a'r awgrym o ffigyrau hynny yw nad ydym ar yn o bryd yn gwneud y defnydd fwyaf effeithiol o'r holl adnoddau addysg – yn cynnwys adnoddau ac asedau adeiladau dysgu ac addysgu.

7.2.3. Er fod adnoddau cyfalaf wedi ei adnabod – mae'r adnoddau hynny yn brin. Ceir awgrym y bydd posibilrwydd o gyfleon pellach i ddenu adnoddau – ond bydd yn rhaid i gynlluniau fod yn barod os daw y cyfleon hyn. Bydd rhaid ystyried opsiynau arloesol yn sgil y cyfyngiadau, ac hefyd bod yn barod i wynebu rhai penderfyniadau anodd wrth drawsnewid i greu cyfundrefn llawer fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

## 8. I Gloi

8.1 Felly, i grynhoi – mae yn gynamserol mesur llwyddiant y strategaeth ad-drefnu yn fanwl, ond mae arwyddion fod y cynlluniau yn mynd a'r gyfundrefn addysg i'r cyfeiriad cywir o ran ffactorau; maint dosbarthiadau, poblogaeth, niferoedd disgyblion, arweinyddiaeth, amgylchedd dysgu ac adnoddau ariannol ayb. Rhaid cydnabod nad yw'r math yma o raglen o newid yn hawdd i'r rhai sydd yn cael ei effeithio ganddi. Nodir hefyd fod rhai gwersi wedi eu dysgu o ran y broses o ad-drefnu.

8.2 Mae'r strategaeth hon wedi ei sylfaenu i sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd, ac hefyd addysg gynaliadwy i'r dyfodol. Bydd y rhaglen am y cyfnod nesaf yn cael ei gyrru gyda hynny mewn golwg.